



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad polisi parhad dysgu



Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

Mae'r sefydliadau canlynol yn cyfrannu tuag at y rhaglen
'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'.

Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Rhanbarthol

Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol

Estyn

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru

Cymwysterau Cymru

Am fwy o wybodaeth ewch i
hwb.llyw.cymru/cadwnddiogeldalatiiddysgu

Y cyd-destun

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn sylweddol.

Mae oedolion a phlant, fel ei gilydd, yn wynebu heriau gwirioneddol a difrifol iawn o ran eu hiechyd a'u lles. Mae'r perygl o ddal yr haint, y posibilrwydd o golli rhywun annwyl, a'r cyfyngiadau ar adael y cartref yn rhoi straen ar ein hiechyd corfforol a meddyliol ac ar ein perthynas â'n gilydd. Gallai diffyg trefn, y tarfu ar y broses ddysgu a'r angen i gadw pellter oddi wrth ffrindiau effeithio ar blant yn arbennig.

Ein blaenoriaethau

Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd ar y system addysg, ond mae'n parhau i fod o bwys canolog.

Yn ystod y cyfnod hwn, pan na all y rhan fwyaf o ddysgwyr fynychu lleoliadau ac ysgolion yn gorfforol, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'n holl bartneriaid ar draws y system addysg, fydd cefnogi:

- diogelwch ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg
- iechyd a lles corfforol a meddyliol ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg
- sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael parhau i ddysgu, a
- y broses drosglwyddo yn ôl i'r ysgol ac ymlaen i gam nesaf addysg dysgwyr pan ddaw'r amser.

Hyd a lled y rhaglen

Mae rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' yn tynnu ynghyd gyfraniadau o bob rhan o'r sector addysg a thu hwnt er mwyn cefnogi ein system gyfan. Rhaid inni wneud ein gorau glas i liniaru effaith cau ysgolion ar ein plant, yn enwedig y plant hynny sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig y bydd y sefyllfa bresennol yn effeithio fwyaf arnynt yn ôl y gwaith ymchwil.

Mae'r wythnos hon yn nodi dechrau tymor yr haf, ond ni fydd ysgolion Cymru yn ailagor eu drysau i bob dysgwr. O dan yr amgylchiadau hyn, ein tasg yw dod o hyd i ffyrdd o helpu ein plant i ddal ati i ddysgu. Mae hyn yn golygu hwyluso dysgu o bell a chynllunio sut y gallwn helpu plant yn y ffordd orau drwy'r cyfnod hwn.

Ochr yn ochr â hynny, mae angen inni wneud cynlluniau ar gyfer ailagor ysgolion. Dim ond pan fydd y cyngor gwyddonol yn dweud ei bod yn ddiogel gwneud hynny y bydd hyn yn digwydd, ond hyd yn oed wedyn, ni allwn ragdybio y bydd popeth yn dychwelyd i'w drefn ar unwaith. Mae dysgu o bell, felly, yn debygol o fod â rôl i'w chwarae ochr yn ochr â'r ddarpariaeth yn adeiladau ein hysgolion. Mae angen inni ystyried hefyd sut i gefnogi ysgolion i helpu plant i ymglyfarwyddo unwaith eto â'r lleoliad ysgol pan ddaw'r amser, ac wrth benderfynu ar ffocws y dysgu.

Eisoes mae ysgolion wedi bod yn cael eu defnyddio i roi cymorth i'n gweithwyr hanfodol ac i blant bregus ar draws y wlad; ac mae ysgolion ac ymarferwyr wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn galluogi'r broses ddysgu i barhau. Mae ymdrechion ein penaethiaid, ein staff a'n teuluoedd wedi bod yn aruthrol, ac mae cefnogaeth ein partneriaid strategol ar draws y system addysg wedi bod yn eithriadol.

Byddwn yn sicrhau bod ein holl bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws y system addysg ehangach yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyfrannu at yr ymateb hwn. Yn ddiweddar, rydym wedi cael cyfle i weithio mewn partneriaeth i ddiwygio'r system addysg, ac rydym am weithredu yn yr un ysbryd o broffesiynoldeb cydweithredol a chydymgyrchu wrth ymateb i argyfwng COVID-19. Gwnawn hyn drwy gydbwysu dwy elfen hanfodol – cadw ein plant yn ddiogel a'u helpu i ddal ati i ddysgu.

Yn ystod y rhaglen hon, byddwn yn annog pobl i roi adborth a byddwn yn parhau i feithrin dull cydweithredol o gefnogi ein system. Rydym yn croesawu adborth a chyfraniad ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ar draws y system addysg ar bob elfen o raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'.

Mae cenhadaeth ein cenedl i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n mwynhau hyder y cyhoedd wedi sbarduno'r cynnydd ar gyfer ein dysgwyr, ein hathrawon a'n hysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid inni beidio â cholli golwg ar yr amcanion hynny rydym yn eu rhannu ar gyfer pob plentyn yn ystod yr adeg heriol eithriadol hon – ac ni wnawn ni. Mae'r cyfnod hwn o darfu ar y drefn arferol yn golygu bod yn rhaid inni weithio gyda'n gilydd, mewn ffyrdd newydd a gwahanol, i gadw ein plant yn saff ac i'w helpu i ddal ati i ddysgu. Mae'r ymrwymiad a rannwn – ledled y wlad – i gyfuno cyfle cyfartal a rhagoriaeth yn golygu y gallwn lywio ein ffordd drwy'r cyfnod hwn a buddsoddi yn y gwaith o fynd i'r afael â materion fel allgáu digidol, parhau i symud ymlaen â dulliau dysgu ar-lein o'r radd flaenaf, a chefnogi dysgu proffesiynol pwrpasol ar gyfer ein gweithlu addysg.

Ein hamcanion

Bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gweithio ar draws y system addysg mewn nifer o ffyrdd i gefnogi arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Yn allweddol i'n gwaith fydd y gydnabyddiaeth bod y rhain yn amgylchiadau eithriadol a bod gofyn inni weithio mewn ffyrdd gwahanol ac ymgymryd â thasgau anghyfarwydd. Efallai bod ein rolau a'n cyfrifoldebau arferol yn newid, ac ar yr un pryd rydym yn delio â straen a phryder digyffelyb ynghylch y feirws ac yn sgil y mesurau cadw pellter cymdeithasol. Fe fyddwn yn ceisio cynnal y broses ddysgu ar draws y system, ond byddwn yn gwneud hynny gan ystyried y pwysau y mae pob un ohonom dano.

Fel yr amlinellwyd yn ein blaenoriaethau, credwn mai'r peth pwysicaf yn y cyfnod hwn o newid a tharfu na welwyd ei debyg yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.

Byddwn yn cefnogi rhieni/gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu, gan gydnabod, er mai nhw yw eu prif addysgwyr, nad athrawon ydynt, a chan ei gwneud yn glir nad oes disgwyl iddynt ail-greu lleoliad ysgol gartref.

Byddwn yn ei gwneud yn bosibl i'r dysgu barhau drwy raglen eang, gan greu'r seilwaith a'r cymorth angenrheidiol ar gyfer parhad yr addysg. Byddwn yn cynnig canllawiau a chefnogaeth ar gyfer meysydd allweddol fel dysgu o bell a sut i gael y budd mwyaf o'n platfform dysgu digidol cenedlaethol, Hwb.

Wrth ymrwymo i gefnogi parhad yr addysg, rydym yn cydnabod y bydd hyn yn golygu dulliau newydd o weithio ac, o bosibl, sgiliau newydd ar gyfer ein hymarferwyr er mwyn sicrhau dysgu o bell. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis y consortia rhanbarthol, i gynnig cymorth a chyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn addasu i hyn lle bo angen.

Byddwn yn ceisio gofalu, i'r graddau posibl, na fydd un dysgwr o dan anfantais oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg, lle mae'n byw, ei oedran, ei anghenion addysgol arbennig, iaith ei ysgol neu ei gartref, neu ei broffil demograffig. Byddwn hefyd yn mynd ati i ystyried y cymorth y bydd ei angen ar ddysgwyr wrth ddychwelyd i'r ysgol. Byddwn yn rheoli'r rhaglen hon i sicrhau bod anghenion dysgwyr bregus a difreintiedig ac egwyddorion cynhwysiant yn ganolog.

Ein cynlluniau i gefnogi'r system

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn gan fod gennym Hwb, ein platfform digidol cenedlaethol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb yn cynnig mynediad i ystod o adnoddau a gwasanaethau digidol dwyieithog.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ystod eang o adnoddau eisoes wedi'u creu ac ar gael i ddysgwyr ledled Cymru. Mae arweinwyr ac athrawon ar draws y wlad wedi ymdrechu'n fawr i barhau i gynnal diddordeb dysgwyr drwy ddarparu adnoddau a chyfeirio teuluoedd at gymorth addas.

Fodd bynnag, nid yw'n ddigon gosod cynnwys ar ein system, na hyd yn oed darparu dolenni i'r ystod eang o adnoddau proffesiynol sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r sefyllfa bresennol ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ychwanegu gwerth i'r broses drwy gefnogi cyd-ymdrech genedlaethol a fydd yn galluogi ysgolion i greu a rhannu rhaglenni o ansawdd uchel yn ystod y cyfnod hwn at ddibenion dysgu o bell, ac adnoddau i gefnogi ystod eang o weithgareddau – gan gynnwys ar gyfer y dysgwyr a'r teuluoedd hynny nad oes ganddynt y cysylltedd neu'r dyfeisiau arferol.

Drwy gydol ein cynllun, byddwn yn gofalu bod gan ysgolion, lleoliadau a dysgwyr yr un hawl i gymorth, boed drwy'r Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg sy'n byw ar aelwydydd lle na siaredir Gymraeg, ac yn dod o hyd i ffyrdd o gynnal eu cysylltiad â'r iaith.

Byddwn hefyd yn nodi ac yn rheoli'n ofalus yr ymateb i unrhyw grŵp o ddysgwyr sydd mewn categori risg uwch. Mae yna grwpiau dysgwyr allweddol y bydd angen cymorth penodol arnynt yn y cyfnod hwn, megis dysgwyr bregus a'r rheini sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a'r dysgwyr hynny sy'n trosglwyddo o un cyfnod allweddol i un arall.

Byddwn yn darparu cymorth a chymorth gweithredu pwrpasol ar gyfer pob lefel o'r system addysg, ynghyd ag ystod o ganllawiau a chefnogaeth. Bydd hyn yn cynnwys:

- Penaethiaid, arweinwyr a llywodraethwyr
 - Canllawiau ar ofalu am eu lles eu hunain, a lles eu staff a'r dysgwyr.
 - Canllawiau ar ddatblygu a rheoli dysgu ar-lein.
 - Canllawiau ar fathau eraill o ddysgu o bell.
- Ymarferwyr, gan gynnwys athrawon a'r rheini sy'n cefnogi'r broses ddysgu yn ein hysgolion
 - Canllawiau a chymorth ar ddefnyddio set adnoddau Hwb i gefnogi parhad dysgu ar gyfer dysgwyr o bob oed.
 - Canllawiau ar yr arferion gorau o ran creu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein a mathau eraill o adnoddau dysgu.
 - Canllawiau ynghylch strwythur, cynnwys a fframwaith dylunio dysgu o bell.
 - Canllawiau ar rannu a churadu adnoddau ar draws y system.
 - Mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol fel bod modd defnyddio unrhyw amser a lle sydd ar gael i ddatblygu arferion a dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd yn barod at yr adeg pan gaiff ysgolion eu hailagor.
- Rhieni
 - Canllawiau ar ofalu am iechyd a lles plant a'u helpu i ddysgu gartref.
- Dysgwyr, gan gefnogi eu mynediad at ddysgu drwy:
 - dechnoleg
 - adnoddau dysgu o ansawdd uchel
 - gweithgareddau a phrofiadau dysgu pwrpasol ar-lein ac i ffwrdd o'r sgrîn.

Byddwn yn creu'r adnoddau hyn drwy:

- weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rhanbarthau a phartneriaid strategol ar draws ein system addysg
- gweithio gyda'r rhanbarthau, awdurdodau lleol ac ysgolion i gefnogi dysgwyr nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg.

Fel y cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yr wythnos diwethaf, bydd elfennau cyntaf y cymorth yn:

- mynd i'r afael â'r broblem bod yna rai wedi'u hallgáu yn ddigidol drwy gydweithio ag awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau mynediad ehangach i Hwb a'i gyfleoedd dysgu, a mynd i'r afael â phroblemau o ran cyfarpar a chysylltedd
- darparu canllawiau a chymorth i staff ysgolion i ddatblygu arferion sy'n gydnaws â'r ffordd newydd o ddysgu
- darparu canllawiau a chymorth i ysgolion ar ddefnyddio Hwb i barhau â busnes yr ysgol.